# Monitro a chynnal dilyniant edrychiad y perfformiwr

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i fonitro a chynnal dilyniant edrychiad y perfformiwr.

Mae'r safon yn ymdrin â sicrhau bod gwallt, wigiau, colur a phrostheteg y perfformiwr yn cyd-fynd gyda'r dyluniad a'r fanyleb ar gychwyn y cynhyrchiad a sicrhau y caiff ei gynnal drwy gydol y cynhyrchiad. Mae hefyd yn ymwneud â chadw cofnodion dilyniant a sicrhau nad ydych chi'n aflonyddu neu'n amharu ar unrhyw beth neu unrhyw un ar y set.

Mae'r safon hon ar gyfer holl aelodau'r tîm sy'n ymdrin â'r perfformwyr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau gofynion y fanyleb dylunio gyda'r unigolyn perthnasol
2. sicrhau bod y deunyddiau a'r cyfarpar ar gael i gofnodi gwybodaeth a'u bod mewn cyflwr da cyn cychwyn y cynhyrchiad
3. monitro a chynnal dilyniant y perfformiwr drwy gydol y cynhyrchiad
4. gwirio a chytuno gyda'r unigolyn perthnasol bod gwallt, wigiau, colur a phrostheteg y perfformiwr yn bodloni'r fanyleb dylunio ar gyfer y cynhyrchiad
5. cytuno ar addasiadau i walltiau, wigiau, colur a phrostheteg gyda'r bobl berthnasol o ganlyniad i ddigwyddiadau heb eu sgriptio yn ystod y cynhyrchiad
6. tarfu cyn lleied â phosib ar y cynhyrchiad wrth wneud newidiadau i walltiau, wigiau, colur a phrostheteg
7. cytuno ar newidiadau gyda'r unigolyn perthnasol
8. cynnal cofnodion dilyniant i'w cadw yn y ffeil dilyniant gwallt a/neu golur a sicrhau bod cofnodion o'r fath yn gywir ac yn hygyrch
9. cyfathrebu gyda thîm y cynhyrchiad i sicrhau dilyniant o'r cyfarwyddyd dylunio
10. cyfathrebu gydag adrannau eraill i sicrhau y caiff y cyfarwyddyd dylunio ei fodloni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*